

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer 27/2/2017**

**Presennol:** Emyr Jones, (Is Gadeirydd), John Morris, Geraint Roberts, Gwyn Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawyd pawb gan Emyr Jones a derbyniwyd ymddiheuriadau Eleri Jones a Tylly Roberts.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Nid oedd datganiadau o fuddiant.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 9/1/2017.
5. Materion yn codi o gyfarfod Ionawr:
  - a. Adroddodd y Cynghorwyr na fu defnydd o'r biniau halen y flwyddyn hon.
  - b. Adroddodd Alan Jones Evans fod yr eithin wrth ochr y ffordd yn ymyl Penygarth wedi ei dorri. Diolchwyd iddo ac i weithwyr Cyngor Gwynedd am sicrhau hyn.
  - c. Bu Alan Jones Evans yn ymholi eto ar fater biniau Llangywer ac mae trafodaethau ar waith i'w hadleoli ar safle arall.
6. Materion y Clerc:
  - a. Adroddodd y Clerc y bu 36,000 o ymweliadau a'r wefan yn ystod 2016.
  - b. Derbyniwyd gwybodaeth am Wyl Awyr Agored Eryri.
7. Derbyniwyd Adroddiad y Cynghorydd Sir a soniodd am y Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol. Y bwriad ydyw lleihau rhywfaint ar niferoedd Cynghorwyr Gwynedd erbyn 2022 ac fe fydd cyfle i ymgynghori ar y cynllun cyn hir. Dywedodd y bydd Cabinet Cyngor Gwynedd yn gwneud y penderfyniad terfynol ar statws yr ysgol gydol-oes newydd yn Y Bala. Mae swyddogion Cyngor Gwynedd wedi gwneud asesiad o'r broblem parcio ar ochr y ffordd wrth y Clwb Hwyllo, ac fe fydd Alan Jones Evans yn eu hatgoffa o'r angen am ail-baentio llinellau melyn.
8. **Materion ariannol:**
  - a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol. Cytunwyd i ymholi ymhellach am gael peiriant di-ffib yn Llangywer.
  - b. Ystyried taliadau'r mis:
    - i. Swyddfa Archwilio Cymru £291.75
    - ii. Cyflog y Clerc am y flwyddyn 2016-17 - £600
    - iii. Aelodaeth Un Llais Cymru £36
  - c. Rhoddwyd ystyriaeth i geisiadau am gymorth ariannol; roedd y Cynghorwyr eisoes wedi derbyn caniatâd gan Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd i drafod cais y Neuadd Bentref. Cytunwyd i gyfrannu:
    - i. Pwyllgor Neuadd Llangywer £550
    - ii. CFFI Meirionnydd £50
    - iii. Canolfan y Plase £50
    - iv. Eisteddfod Gylch yr Urdd £50
    - v. Theatr Bara Caws £25
    - vi. Eisteddfod Genedlaethol Môn £50

vii. Cymdeithas Rhieni Athrawon Ysgol y Berwyn £50

**9. Materion y Fynwent:**

- a. Derbyniwyd ymateb CADW a'r perchnogion i'r pryder am gyflwr Eglwys Santes Gwawr. Derbyniwyd llythyr gan y perchnogion yn amlinellu'r gwaith sy'n fwriad ganddynt i'w wneud. Mynegodd y Cyngorwyr pryder mawr am y dystiolaeth yn y lluniau o'r dirywiad sylweddol i'r adeilad, a mynegwyd pryder am ddiogelwch y cyhoedd. Cytunodd y Clerc i anfon at y perchnogion i ofyn iddynt roi mesurau mewn grym i sicrhau diogelwch y cyhoedd. Nodwyd derbyn copi o lythyr a anfonwyd at Barc Cenedlaethol Eryri gan aelod o deulu'r perchnogion yn mynegi ei anfodlonrwydd gyda materion cynllunio lleol.
- b. Rhoddwyd ystyriaeth i osod bin gwyrdd ar gyfer gwastraff blodau yn y fynwent a pharatoi safle addas ar ei gyfer. Byddai angen talu tua £60 y flwyddyn i Gyngor Gwynedd am gasglu'n rheolaidd. Cytunwyd ar hyn o bryd i ofyn i'r Ymgymerydd glirio'r gornel tu ôl i'r giât a'i baratoi ar gyfer bin, gosod arwydd yn gofyn i bobl gario gwastraff blodau adre efo nhw, a holi Cyngor Gwynedd a fyddai'n bosib cael trefniant "ar alw" i gasglu'r sbwriel.

**10. Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned:**

Addawodd y Cyngorwyrdd Alan Jones Evans i dynnu sylw'r adrannau priodol at

- i. Draeniau wedi blocio wrth droad Pantyrannen i Geuddol
- ii. Twll yn y ffordd o dan Llechwedd Ystrad
- iii. Yr angen i wella'r corneli wrth Fryntirion

**11. Partneriaeth Penllyn:**

- a. Cytunwyd i arwyddo'r Cytundeb gyda Chyngor Gwynedd.
- b. Derbyniwyd adroddiad gan W D Williams.
- c. Rhoddwyd ystyriaeth i gynnal llwybrau. Gan mai dim ond un llwybr byr sydd yn y cynllun ar gyfer Llangywer, awgrymwyd fod Partneriaeth Penllyn yn ceisio cael cyfraniad gan y defnyddwyr, sef carafanwyr Pen y Bont, tŷ Pen y Bont, defnyddwyr y trê'n bach a'r Clwb Hwyllo.

**12. Gohebiaeth:**

**Parc Cenedlaethol Eryri:** Cymeradwywyd cais NP5/70/135C sef Mewnllif eilaidd arfaethedig i gynllun trydan dŵr sydd wedi ei ganiatáu eisoes, Nant Rhyd Wen, Cwmyglyn.

Derbyniwyd gwybodaeth am ganiatâd i ddiwygiad ansylweddol ar gyfer addasu safle parcio o fewn cwrtel a mynedfa i gerbydau wrth eiddo Troed y Glyn.

**Cyngor Gwynedd:** Nodwyd derbyn gwybodaeth am wefan "Dewis Cymru".

**Llywodraeth Cymru:** Arolwg Rheoli Gwasanaethau ac Asedau – nodwyd ei dderbyn

13. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: Cyfarfod Blyneddol 15/5/17